Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Robert Buckland CF AS

Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

19 Mehefin 2020

Annwyl Arglwydd Ganghellor

**Ymchwiliad ym maes Gwneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru - data ar fynediad at gyfiawnder**

Fel y gwyddoch, rydym yn cynnal ymchwiliad, sef Gwneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru, a bod y gwaith hwn yn dilyn adroddiad y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru, a'r ddadl yn y Senedd ar yr adroddiad hwnnw fis Chwefror eleni.

Fel y gwyddoch, cafodd y Comisiwn Cyfiawnder anhawster dod o hyd i ddata wedi'u dadgyfuno ar gyfiawnder yng Nghymru a dywedodd fod Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cytuno i sefydlu gweithgor bach i drafod yr angen i gael data cyfiawnder ar gyfer Cymru a sut y gellid sicrhau hynny. At hyn, rydym yn ymwybodol bod y Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru, a sefydlwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, wedi argymell yn 2017 y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gynnal adolygiad o'r modd y caiff ei data eu casglu a'r modd y mae arfer cyhoeddi'n adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr a, phan fo modd, y dylid dadgyfuno data i roi darlun cliriach o'r modd y mae cyfiawnder yng Nghymru yn gweithredu.

O safbwynt ein swyddogaeth graffu, mae'n bwysig ein bod yn gallu deall sut y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn defnyddio data ar gyfiawnder yng Nghymru. Ar hyn o bryd, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o wybodaeth i ni am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli data ar fynediad at gyfiawnder, yn enwedig y newidiadau mewn cymorth cyfreithiol, nifer y diffynyddion na chânt eu cynrychioli a nifer y llysoedd sydd wedi cau.

Rwyf hefyd yn ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, i ofyn am wybodaeth am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r data dan sylw.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Cyn bo hir, byddwn yn cynnal trafodaethau eraill am ein rhaglen waith, a bydd y rhain yn cynnwys penderfynu ar sesiynau tystiolaeth lafar yn y dyfodol, a byddwn yn ystyried model y cyfarfodydd rhithwir presennol ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor y Senedd. Mae'n debyg y byddwn yn eich gwahodd i un o'n cyfarfodydd yn y dyfodol fel rhan o'r ymchwiliad hwn, a byddaf yn gofyn i'r Clerc gysylltu â'ch swyddogion i gael gwybod pryd y byddwch ar gael.

Yn gywir,

Mick Antoniw MS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.